COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PENODIADAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 26 GORFFENNAF 2015 AM 13:00

Presennol

Cynghorydd MEJ Nott OBE – Chairperson

| | | | |
|---|---|---|---|
| JH Tildesley MBE | GW Davies MBE | CA Green | HJ David |
| HJ Townsend | | | |

Gwahoddedigion:

Mr R Kelly – Solace in Business

Swyddogion:

| | | |
|---|---|---|
| S Cooper | - | Corporate Director – Social Services and Wellbeing |
| D Beeke | - | Workforce Development Manager |
| | - | Senior Democratic Services - Committees |

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Prif Weithredwr gan ei fod yn mynychu angladd aelod agos o'i deulu

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dywedodd y Cynghorydd H J David fod un o'r ymgeiswyr, a oedd wedi gwneud cais am swydd Pennaeth Diogelu ac Asesu, wedi gweithio i'r Awdurdod yn flaenorol tra oedd yn Aelod Cabinet ar gyfer portffolio Plant a Phobl Ifanc. Gan fod ei berthynas â'r Swyddog hwn yn broffesiynol yn unig yn ei natur, datganodd fuddiant personol yn eitem 4 ar yr Agenda.

3. EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt yn unol â'r diffiniad ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn prawf buddiant y cyhoedd, penderfynwyd ystyried yr eitemau canlynol yn breifat ac eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, oherwydd ystyriwyd, ym mhob un o'r amgylchiadau sy'n berthnasol i'r eitemau, fod buddiant y cyhoedd i gadw'r esemptiad yn drech na buddiant y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn rhagfarnus i'r ymgeiswyr dan sylw.

| Rhif cofnod | Crynodeb o'r Eitem |
|---|---|
| 4 | Proses Penodi: Pennaeth Diogelu ac Asesu. |

4. PROSES PENODI: PENNAETH DIOGELU AC ASESU